**Penderfyniad Eithriadol – Datganiad**

**Cyflogau ar gyfer swyddi ychwanegol**

**Datganiad gan Fwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd o dan adran 13(5) o Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010 ("y Mesur")**

Penderfyniad gan Fwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd

Ar 19 Mawrth 2026, gwnaeth Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd ("y Bwrdd") benderfyniad o dan adran 20(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 mewn perthynas â chyflogau Aelodau o'r Senedd sy'n rhannu swydd cadeirydd pwyllgor.

Mae'r Senedd wedi cytuno i gyflwyno Rheol Sefydlog dros dro, sef Rheol Sefydlog 17A, a fydd yn caniatáu i ddau Aelod rannu swydd cadeirydd pwyllgor am gyfnod treialu. Byddai'r Rheol Sefydlog dros dro yn dod i ben ar ddiwedd y Seithfed Senedd, a dylid cynnal adolygiad cyn i hynny ddigwydd. O dan drefniant o'r fath, byddai'r swydd yn cael ei rhannu rhwng dau Aelod o'r un grŵp yn y Senedd, a fyddai'n cytuno ar sut i rannu'r cyfrifoldebau a'r rolau rhyngddynt.

Penderfyniad y Bwrdd yw gwneud darpariaeth ar gyfer cyflog Aelodau sy'n rhannu swydd cadeirydd pwyllgor, fel bod y naill a'r llall yn cael cyflog o £8,106[1] (h.y. 50 y cant o'r cyflog llawn a delir i gadeirydd pwyllgor).

Rhesymau'r Bwrdd dros wneud Penderfyniad Eithriadol

Mae adran 13(3) o'r Mesur yn nodi mai dim ond un Penderfyniad y caiff y Bwrdd ei wneud mewn perthynas â chyflogau'r Aelodau o dan adran 20(1) o'r Ddeddf ar gyfer pob tymor Senedd. Ar 19 Gorffennaf 2025, gwnaeth y Bwrdd Benderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd o dan adran 20(1).

Fodd bynnag, yn unol ag adran 13(4) o'r Mesur, mae'r Bwrdd o'r farn bod amgylchiadau eithriadol sy'n golygu ei bod yn gyfiawn ac yn rhesymol i'r cyfyngiadau a osodir gan adran 13(3) beidio â bod yn gymwys.

Mae'r Bwrdd o'r farn bod angen Penderfyniad eithriadol am y rhesymau a ganlyn:

- Mewn sefyllfa lle byddai dau Aelod yn rhannu rôl cadeirydd pwyllgor, byddai'r naill Aelod a'r llall yn gadeirydd pwyllgor. Felly, pe na bai'r Bwrdd yn gwneud unrhyw beth, byddai'r ddau Aelod dan sylw yn cael y cyflog llawn a delir i gadeirydd pwyllgor o dan y Penderfyniad, sef £16,212.

[1] Bydd y cyflog hwn yn cael ei addasu bob blwyddyn, yn unol â'r rheolau a nodir yn y Penderfyniad.

- Rhoddodd y Bwrdd ystyriaeth i’w ddyletswydd i gyflawni'r amcanion a nodir yn adran 3 o'r Mesur (gan gynnwys gwerth am arian). Penderfynodd y dylai Aelodau sy'n rhannu rôl cadeirydd pwyllgor gael cyflog cyfartal sy’n cyfateb i 50 y cant o’r cyflog llawn a delir i gadeirydd pwyllgor.

- Mae symlrwydd a thryloywder hefyd wrth wraidd penderfyniad y Bwrdd, a bydd y Bwrdd yn parhau i adolygu’r trefniadau o ran rhannu swyddi er mwyn sicrhau bod y Bwrdd yn parhau i gyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur.

Mae'r Bwrdd o'r farn bod yr ystyriaethau hyn yn esgor ar amgylchiadau eithriadol sy'n ei gwneud yn gyfiawn ac yn rhesymol gwneud y penderfyniad hwn.